

**Cynllun Iaith Gymraeg
Ffilm Cymru Wales**

**Cymeradwywyd y cynllun iaith Gymraeg hwn
gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 9fed o Chwefror 2015**

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Datganiad
3. Cynyrchiadau a gwasanaethau creadigol
4. Delwedd gyhoeddus
5. Cyfathrebu
6. Gweithredu
7. Monitro
8. Cwynion ac adborth
9. Hysbysebu'r Cynllun a chodi ymwybyddiaeth gyhoeddus
10. Amserlenni a chynllun gweithredu

1. Cyflwyniad

- 1.1 Sefydlwyd Ffilm Cymru Wales, Asiantaeth Ffilm Cymru gynt, yn 2006 fel cwmni buddiannau cymunedol ar gyfer datblygu'r sector ffilm, yn ogystal â manteision economaidd, diwylliannol ac addysgol ffilm yng Nghymru. Gwireddir a chefnogir hyn drwy sicrhau bod ffilmiau gan dalent o Gymru, ac sydd o fudd i Gymru, yn cael eu gwneud a'u gweld, ac i ddatblygu dysgu a sgiliau drwy gyfrwng ffilm.
- 1.2 'Rydym yn derbyn arian sylweddol drwy Gyngor Celfyddydau Cymru fel eu cynrychiolydd loteri allanol, ac felly ein dyletswydd yw darparu gwasanaethau dwyieithog, ac i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Credwn fod hyn yn arfer da. 'Rydym hefyd yn derbyn nawdd ar sail Brydeinig, er enghraifft, drwy'r BFI, a thrwy gynhyrchu incwm penodol ar gyfer prosiectau a gweithgareddau arbennig o wahanol ffynonellau. Gall y rhain gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, gwmnïau preifat, partneriaid Prydeinig a phartneriaid rhyngwladol, ac i incwm a enillir.
- 1.3 Datblygwyd ein Cynllun Iaith Gymraeg yng nghyd-destun arbenigol gwaith Ffilm Cymru Wales ac, yn fwy arbennig, yn y cyd-destun ehangach ble mae ffilmiau a'u hasedau cysylltiol yn cael eu hariannu, eu gwneud, eu gwerthu a'u harddangos, a'r gofynion sydd arnom i gydymffurfio â rheoliadau'r DU ac Ewrop, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i gyfraith cystadleuaeth a Chymorth Gwladwriaethol. Yn ogystal â hyn, cynhyrchir ein gwaith a'n hadnoddau addysg i ymateb i ofynion penodol, naill ai ar gyfer gofynion y cwricwlwm addysg datganoledig, ar gyfer ysgolion Cymraeg neu Saesneg, neu ar gyfer y farchnad ehangach yn y DU (fel gyda CA4, er enghraifft), y farchnad anffurfiol (cymunedol, er enghraifft) neu'r farchnad ryngwladol.
- 1.4 Llywodraethir Ffilm Cymru Wales gan Fwrdd annibynnol o Gyfarwyddwyr. Mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol, ac yn ail-gylchu unrhyw elw. 5877128 yw rhif cofrestredig y cwmni, ac nid yw wedi ei gofrestru ar gyfer TAW.
- 1.5 Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: www.ffilmcymruwales.com

2. Datganiad

- 2.1 Mae Ffilm Cymru Wales wedi ymrwymo i ddarparu pob gwasanaeth yn ddwyieithog, gan drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Byddwn yn hybu defnyddio'r Gymraeg ar draws ein gweithgareddau a'n gwasanaethau, a byddwn yn annog y siaradwyr Gymraeg sy'n cysylltu â ni i ddefnyddio'r iaith o'u dewis nhw, ble bynnag fo hynny'n ymarferol.
- 2.2 Pan fyddwn yn cefnogi creu cynnwys a chynnyrch artistig, bydd iaith y gwaith neu gynnyrch creadigol yn cael ei bennu gan yr artist, gan ystyried y farchnad berthnasol.
- 2.3 Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn rhan o ymrwymiad ehangach Ffilm Cymru Wales tuag at weithredu'n gynhwysol ac i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. 'Rydym wedi ymrwymo i:
 - greu cyfleoedd i bawb wneud, wyllo a dysgu am ffilm drwy ddymchwel rhwystrau economaidd-cymdeithasol ble bynnag fo hynny'n bosib, gan sicrhau nad yw hil, anabledd, rhywioldeb, rhyw, cefndir economaidd-cymdeithasol nag iaith yn amharu ar y cyfleoedd hynny
 - fabwysiadu'r dull hwn o weithredu yn ein holl waith a thrwy ein sefydliad drwyddo draw
 - gyhoeddi ein hymrwymiad tuag at weithredu'n gynhwysol, ac i arddangos enghreifftiau o arfer da
 - gipio, dadansoddi a rhannu popeth a ddysgir am yr hyn sy'n amharu ar y cyfleoedd sydd ar gael, ac yn cefnogi cynhwysiant parthed gwneuthurwyr a defnyddwyr ffilm

3. Cynrychiadau a Gwasanaethau Creadigol

- 3.1 Fel cynrychiolydd allanol loteri Cyngor Celfyddydau Cymru a'r BFI, mae Ffilm Cymru Wales yn annog ac yn gwahodd artistiaid a chynhyrchwyr i gyflwyno prosiectau i'w datblygu a'u cynhyrchu yn yr iaith o'u dewis nhw. Hyn oll yng nghyd-destun cronfeydd loteri preifat/masnachol y partneriaid ariannol, a gan ystyried amgylchiadau'r farchnad.
- 3.2 O dro i dro cyhoeddir cynlluniau sydd wedi eu hariannu eisoes er mwyn rhoi arian i gwblhau prosiectau. Gallai'r rhain fod ynghlwm â phartneriaid sy'n gosod cyfyngiadau ar fformat y ffilm, megis hyd, genre a/neu iaith. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, pan fo darlledwr yn cyd-ariannu, byddai hyn wedyn yn arwain at dderbyn ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg yn unig.
- 3.3 Mae Ffilm Cymru Wales wedi gweithio â nifer o bartneriaid yn y gorffennol, a byddwn yn parhau i greu partneriaethau gyda sefydliadau eraill yng Nghymru ar gyfer cyd-ariannu, yn enwedig i roi cyfleoedd i dalent gynhyrchu gwaith yng Nghymru. Gallai'r partneriaid posib gynnwys S4C, Llenyddiaeth Cymru a Creative Skillset Cymru, er enghraifft, ar gyfer ein cynlluniau *Sinematig* ac *Y Labordy*.
- 3.4 Mae Ffilm Cymru Wales yn cynnig ac yn parhau i ddatblygu amrediad o wasanaethau creadigol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, greu asedau sy'n gysylltiedig â ffilm, fel adnoddau addysg, y wasg a gwasanaethau marchnata, a chyrsgiau hyfforddi mewn ffilm fydd wedi'u teilwra'n arbennig. Mae'r rhain yn cael eu creu yn benodol ar gyfer marchnad arbennig, a hynny fydd yn pennu pa iaith a ddefnyddir ar eu cyfer.

4. Delwedd Gyhoeddus

4.1 Hunaniaeth Brand

Yn sgil ail-frandio ein henw i Ffilm Cymru Wales, mae'n amlwg ein bod yn croesawu ac yn annog cynnwys dwyieithog. Defnyddir ein logo dwyieithog integredig yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol, gan ysgogi chwilfrydedd yn y rheiny nad ydynt yn ymwybodol fod Cymru yn genedl ddwyieithog.

'Rydym yn pwysleisio hyn ymhellach drwy farchnata cynllun cyfathrebu sy'n chwarae ar yr 'ff' yn 'ffilm', gan ychwanegu dyfyniadau enwog o fyd y ffilm at ddyfyniadau busnesau unigol e.e. *'let the fforce be with you'*, a thrwy gael 'fun Friday' "#ff" i gyfathrebu'n gymdeithasol ar trydar/twitter. Mae hyn yn cyplysu agwedd boblogaidd, ysgafn a chreadigol ffilm fel cyfrwng, gyda nodweddion unigryw'r iaith Gymraeg.

Bydd pob deunydd ysgrifenedig yn ddwyieithog, ble bynnag fo hynny'n addas. Er enghraifft, bydd y wybodaeth 'rydym yn ei chyhoeddi ar y ffilmiau 'rydym ni'n eu cefnogi, yn ddwyieithog. Bydd y deunydd marchnata a'r adolygiadau a gynhyrchir gan asiantaethau gwerthu trydydd parti, dosbarthwyr ac adolygwyr yn ymddangos yn yr iaith a benderfynir arni gan y sawl sy'n creu'r cynnwys ac sy'n berthnasol i'r cynnwys creadigol a'r farchnad darged.

Bydd pob prosiect a gefnogir gan arian loteri Cyngor Celfyddydau Cymru yn cael eu cydnabod felly, ac yn cynnwys logos dwyieithog (Ffilm Cymru Wales a Chyngor Celfyddydau Cymru) ar y ffilmiau gorffenedig.

4.2 Cyhoeddusrwydd

Cyflawnir y mwyafrif o'n gwaith hysbysebu drwy ddatganiadau yn y wasg ac ar eitemau a ddarlledir ar y newyddion ayb yn hytrach na thrwy dalu am hysbysebion, na thrwy nawdd. Fodd bynnag, pan fyddwn yn hysbysebu yng Nghymru gwneir hynny'n ddwyieithog, neu yn Gymraeg yn unig yn y wasg Gymraeg. Pan fyddwn yn hysbysebu mewn gweisg Prydeinig neu ryngwladol byddwn yn ystyried y farchnad berthnasol a'r gofod sydd ar gael, cyn penderfynu a fyddwn yn hysbysebu yn ddwyieithog neu yn Saesneg yn unig.

Bydd cyswllt/dolen i bob hysbyseb sy'n ymwneud â swyddi, yn ogystal â phhecyn cynhwysfawr perthnasol, ar gael bob tro ar-lein.

4.3 Arwyddion

Mae logo dwyieithog integredig Ffilm Cymru Wales yn golygu y bydd pob arwydd parhaol a thros-dro (e.e. arwydd ar faner godi) yn ddwyieithog pan fyddant yn cael eu dangos yng Nghymru, mewn rhannau eraill o'r D.U.

neu'n rhyngwladol. Bydd yr ysgrifenedig ddwyieithog yn cael ei thrin yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

Bydd holl bapurach swyddfa'r cwmni, gan gynnwys papurau â phennawd arnynt, slipiau cyfarchion, cardiau busnes a chardiau apwyntiad yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

Bydd yr holl ddeunydd ysgrifenedig sydd ynghlwm â chynyrchiadau, adnoddau neu ddigwyddiadau penodol ar gael yn ddwyieithog, a bydd gwybodaeth megis dyddiadau, lleoliadau a gwybodaeth i gyfranogwyr/cynulleidfa hefyd yn ddwyieithog. Fodd bynnag, bydd y teitlau, is-benawdau, nodiadau creadigol, dyfyniadau neu adolygiadau'r cyfryngau sy'n berthnasol i'r cynhyrchiad, yn adlewyrchu iaith y gwreiddiol.

5 Cyfathrebu

Fel mater o egwyddor, mae Ffilm Cymru Wales yn cefnogi ein staff, y dalent sy'n cyd-weithio â ni, ein cynulleidfa oedd, ein cleientiaid eraill a'n rhanddeiliaid i fynegi eu hunain yn yr iaith o'u dewis nhw.

Bydd ein Llawlyfr Staff yn tynnu sylw'r staff at ein Cynllun Iaith Gymraeg, a byddwn yn cynnig hyfforddiant yn y Gymraeg i staff pob adran.

Ni newidir y Cynllun Iaith Gymraeg hwn heb i Gomisiynydd y Gymraeg gytuno.

5.1 Ysgrifenedig ac electronig

- Mae Ffilm Cymru Wales yn croesawu gohebiaeth mewn Cymraeg a Saesneg.
- Ni fydd derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg, ynddo'i hun, yn achosi unrhyw oedi.
- Bydd pob llofnod e-bost yn ddwyieithog, a bydd y staff sy'n medru'r Gymraeg, neu sy'n dysgu'r iaith, yn gwahodd eraill i gyfathrebu â nhw yn Gymraeg neu yn Saesneg.

- Bydd pob gohebiaeth Gymraeg a dderbynnir gan y cyhoedd a chleientiaid yn derbyn ateb yn Gymraeg.
- Defnyddir yr un faint o amser i ymateb i'r ohebiaeth Gymraeg a'r ohebiaeth Saesneg.
- Unwaith y daw'n hysbys fod well gan aelod o'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg, bydd y person hwnnw/honno'n derbyn pob gohebiaeth bellach yn y Gymraeg, ble bynnag fo hynny'n bosib.
- Bydd Ffilm Cymru Wales yn sefydlu ac yn cynnal cronfa ddata o flaenoriaethau ieithyddol ein cleientiaid, ac yn eu gwahodd i'n hysbysu o'r blaenoriaethau hynny drwy broses gofrestru ar-lein.
- Os na fydd blaenoriaeth ieithyddol yn hysbys, pan yrrir llythyrau cyffredinol at nifer o bobl yng Nghymru, bydd yr ohebiaeth honno'n ddwyieithog.
- Bydd Ffilm Cymru Wales yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu proffesiynol, neu'n gofyn i staff ateb unrhyw ohebiaeth yn y Gymraeg, os nad yw'r uchod yn bosib neu'n addas.

Fel rhan o'r gwasanaeth 'rydym yn ei ddarparu i Gyngor Celfyddydau Cymru a'r BFI 'rydym yn cynnig nawdd i sefydliadau trydydd parti, gan gynnwys, er enghraifft, i sinemâu, gwyliau a darparwyr addysg trydydd parti yng Nghymru. Tra darperir cytundebau cyfreithiol Saesneg i'r rhain, neu i gleientiaid eraill, bydd yr adran gytundebau'n rhoi gwybod os oes angen darparu gwasanaeth neu gynnyrch dwyieithog, ble fo hynny'n addas. Er enghraifft, bydd yn rhaid i arddangoswyr neu wyliau sy'n cynnig rhaglenni ffilm ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, ddarparu gwybodaeth am eu rhaglenni yn ddwyieithog.

5.2 Ffôn

- Rhoddir canllawiau, cefnogaeth a manylion staff sy'n medru'r Gymraeg i aelodau eraill o'r staff, yn ogystal â'r camau dylid eu cymryd wrth gyfathrebu ar y ffôn.
- Dylai unrhyw berson sydd am gyfathrebu â Ffilm Cymru Wales ar y ffôn fedru gwneud hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg, a dywedir hyn wrth bawb sy'n ffonio, os nad yw eisoes yn hysbys nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- Croesawir pawb sy'n ffonio gan neges ddwyieithog.

- Os nad all aelod o staff gynnig gwasanaeth dwyieithog, bydd yn egluro'r sefyllfa i'r unigolyn, ac yn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg gan aelod arall o'r staff. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, sydd â digon o wybodaeth i ymdrin â'r alwad, gall y sawl sy'n galw ofyn i siaradwr Cymraeg ei ffonio nôl ar ddiwrnod arall; neu yrru'r cais i mewn atom ar bapur; neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg.
- Yn dilyn sgwrs ffôn yn Gymraeg, bydd y flaenoriaeth o ran y Gymraeg yn cael ei chynnwys ar y gronfa ddata, a bydd pob gohebiaeth ddilynol, boed ysgrifenedig neu lafar, yn Gymraeg neu yn ddwyieithog, ar gais y galwr, ble bynnag fydd hynny'n bosib.
- Bydd pob neges ar beiriannau ateb ein swyddfeydd yng Nghymru, yn ddwyieithog.

5.3 Wyneb yn wyneb

- Fel cwmni bach, arbenigol, sy'n cynnig gwasanaeth mewn nifer o leoliadau, ni allwn warantu gwasanaeth yn Gymraeg bob tro. Fodd bynnag, 'rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig i'n cleientiaid a'r cyhoedd fedru cyfathrebu â ni yn y Gymraeg, ac 'rydym yn annog i'r staff sy'n medru'r Gymraeg, wneud hynny.
- Bydd Ffilm Cymru Wales yn ceisio sicrhau fod siaradwyr Cymraeg ar gael yn eu swyddfeydd i drin ag ymholiadau yn Gymraeg. Pan fo ymholiadau arbenigol yn cael eu gwneud yn Gymraeg, ac nad yw'r aelod staff yn gymwys i ymdrin â'r ymholiad hwnnw, bydd y cwsmer yn cael pob cyfle i gyfathrebu yn Gymraeg a chael ateb yn Gymraeg, ble bynnag fo hynny'n bosib.
- Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg wyneb yn wyneb drwy'r Cynllun Bathodynau Iaith Gwaith, mewn digwyddiadau, gweithdai hyfforddi, a ble bynnag bydd ein cleientiaid Cymreig yn cwrdd yng Nghymru.

5.4 Cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau

Fel gyda'r cynyrchiadau, fel arfer cynhelir digwyddiadau artistig a thechnolegol arbenigol Ffilm Cymru Wales yn Saesneg neu yn Gymraeg, yn ddibynnol ar yr iaith sy'n cael blaenoriaeth gan y cyfrannwr.

Bydd pob digwyddiad cyhoeddus arall a gynhelir gan Ffilm Cymru Wales yng Nghymru, fel cynadleddau diwydiant neu ddigwyddiadau lansio, yn annog gwesteion i ddefnyddio'r iaith o'u dewis nhw. Anogir defnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur posib. Gall hyn gynnwys trefnu bod aelodau o'r panel, y Cadeirydd a/neu'r prif siaradwyr yn medru'r Gymraeg. Bydd neges o groeso yn yr iaith Gymraeg yn cael ei chynnwys.

Cyn cynnal unrhyw ddigwyddiad, asesir beth yw'r anghenion cyfieithu, ac yn sgil hyn, darperir adnoddau cyfieithu perthnasol. Os bydd adnoddau cyfieithu ar gael, rhoddir gwybod o flaen llaw fod croeso i unrhyw un siarad yn Gymraeg. Os, ar sail yr asesiad, yr ystyrir nad oes angen adnoddau cyfieithu, neu os nad ydyw'n ymarferol, gwneir hyn yn glir o flaen llaw. Gwneir yr asesiad yn seiliedig ar nod neu bwnc y cyfarfod, y lleoliad, y rheiny sy'n debygol o fynychu'r cyfarfod, ac unrhyw wybodaeth sy'n hysbys o flaen llaw parthed dewis ieithyddol. Gwneir asesiad, hefyd, i weld faint o staff Cymraeg sydd angen bod yn bresennol i dderbyn a chroesawu'r cyhoedd i gyfarfodydd. Byddwn yn ceisio sicrhau fod naill ai'r gwestai, aelod o'r Bwrdd neu aelod o staff, neu wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith ar gael i groesawu'r cyhoedd wrth iddynt gyrraedd.

Bydd bathodynau iaith Gwaith, sy'n dangos pwy all siarad Cymraeg, yn cael eu gwisgo gan yr aelodau hynny o staff a'r gwirfoddolwyr sy'n medru'r Gymraeg.

Bydd unrhyw ohebiaeth a gynhyrchir gan Ffilm Cymru Wales i gyd-fynd â'r digwyddiadau a gynhelir yng Nghymru yn cael eu darparu yn ddwyieithog, neu byddant ar gael mewn fersiynau Cymraeg/Saesneg ar wahân.

5.5 Gwaith print a chyhoeddiadau

Bydd unrhyw ddeunydd marchnata a gynhyrchir gan Ffilm Cymru Wales, ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru, yn ddwyieithog. Fodd bynnag, fel arfer cynhyrchir y posteri, y taflenni a'r rhaglenni ar gyfer cynyrchiadau a gyd-ariennir gan Ffilm Cymru Wales gan bartïon trydydd parti annibynnol, a nhw fydd yn pennu pa iaith sydd fwyaf perthnasol, yn eu barn nhw, ar gyfer y farchnad darged. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod deunyddiau marchnata ar gyfer ffilmiau yn yr iaith Gymraeg yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

Bydd y dalent a gefnogir yn paratoi cynnwys yr hyn sydd i'w gyhoeddi yn yr iaith o'u dewis nhw, heb ei gyfieithu. Bydd y cyhoeddiadau unigol hefyd yn defnyddio'r iaith o'u dewis nhw, a byddwn yn cyd-fynd â hyn.

Fel arfer bydd y cleientiaid Addysg ac Arddangos a gefnogir gan Ffilm Cymru Wales yn cynhyrchu gwaith marchnata yn ddwyieithog, heblaw pan fo'r farchnad darged yn benodol Seisnig (er enghraifft, gydag adnoddau arbennig ar gyfer addysg).

5.6 Datganiadau i'r Wasg

'Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi datganiadau a hysbysebion dwyieithog yn y wasg ac ar y cyfryngau yng Nghymru.

Oherwydd prinder amser, weithiau mae'n rhaid cyhoeddi datganiadau Saesneg yn unig i ddechrau, gyda'r rhai Cymraeg yn dilyn, pan fo hynny'n ymarferol. Ond o dan unrhyw amgylchiadau eraill bydd y broses o gyfieithu'n cael ei chynnwys wrth gynllunio'r amserlenni.

Bydd y gwaith cynllunio parthed y cyfryngau'n cynnwys asesiad o'r siaradwyr Cymraeg all fod ar gael ar gyfer y wasg, er enghraifft, i gael eu cyfweld neu i gynnig sylwebaeth.

5.7 Cyfathrebu Digidol

Mae gwefan Ffilm Cymru Wales yn ddwyieithog. Mae tudalen Gymraeg ar gael ar gyfer pob tudalen Saesneg. Bydd y ddwy iaith yn ymddangos ar wahân, a bydd yn bosib i'r defnyddiwr symud o'r naill iaith i'r llall unrhyw bryd drwy ddefnyddio'r botwm iaith amlwg. Bydd y deunydd a gyhoeddir ar y safle gan Ffilm Cymru Wales yn ymddangos yn Saesneg ac yn Gymraeg, ac fe'u cyhoeddir ar yr un pryd, ble bynnag fo hynny'n bosib.

Bydd unrhyw e-fwletin neu waith cyfathrebu electronig arall (e.e. taflenni) yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

Fel arfer mae llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol (e.e. Twitter, YouTube, Facebook, Instagram) yn ddibynnol ar, ac yn adlewyrchu dewis iaith y sawl sy'n gyfrifol am y cynnwys. Gan fod cynnwys y cyfryngau cymdeithasol mor chwim, ni fydd yn cael ei gyfieithu fel arfer. Anogir y staff i ddefnyddio'r iaith o'u dewis nhw pan yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, ac i hyrwyddo'r broses o ryngweithio a chyfathrebu cymaint â phosib, ac i annog defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Ffilm Cymru Wales wedi ymrwymo i hysbysebu unrhyw ryngweithio perthnasol bydd cyrff trydydd parti yn ei wneud ar y cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio'r Saesneg a'r Gymraeg. A, pan fyddwn yn cyfathrebu o ran deunydd a chynnwys Cymraeg (e.e. hysbysebu lansio cynllun cynhyrchu Cymraeg) defnyddir y ddwy iaith yn ddilynol ar y cyfryngau cymdeithasol.

6 Gweithredu'r Cynllun

6.1 Staffio

Mae Ffilm Cymru Wales yn cydnabod fod y gallu i siarad Cymraeg yn sgil gwerthfawr a pherthnasol, ac yn elfen hollbwysig o hunaniaeth ddiwylliannol Cymru.

Felly, ble bynnag fo hynny'n bosib, byddwn yn cynnig cyfle i'r staff sy'n dymuno dysgu neu wella'u Cymraeg i wneud hynny, a hefyd yn cynnig gwasanaethau cyfieithu ble a phryd mae hynny'n bosib.

Byddwn yn sicrhau fod ein Bwrdd a'n Staff yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru.

Pan fydd swydd newydd yn cael ei chreu, neu swydd bresennol yn dod yn wag, byddwn yn asesu manteision sgiliau ieithyddol Cymraeg i'r swyddogaeth honno cyn ei hysbysebu. Dynodir a fydd y Gymraeg yn 'ddymunol' neu'n 'hanfodol' yn dilyn asesiad gwrthrychol o'r meini prawf. Bydd hyn yn berthnasol i gytundebau llawrydd, penodol a pharhaol. Cynigir hyfforddiant ieithyddol perthnasol os tybir fod angen i ddeiliad y swyddogaeth honno fedru'r Gymraeg, os na fydd siaradwr Cymraeg yn ceisio am y swydd. Gall hyn ddod i'r amlwg yn sgil natur arbenigol rhai sgiliau penodol sy'n angenrheidiol ar gyfer rhai swyddi.

Pan gytunir fod hyfforddiant ieithyddol yn angenrheidiol neu'n ddymunol, bydd targedau perfformio'n cael eu cynnwys yn y targedau perfformio blynyddol. Os cytunir fod angen hyfforddiant penodol gan ymarferwyr cymwys, bydd Ffilm Cymru Wales yn talu amdano ac yn caniatáu amser o'r gwaith ar gyfer ymgymryd ag hyfforddiant o'r fath, neu'n cydnabod fod rhaid cael amser cyfatebol o'r gwaith pan fo raid i staff dderbyn hyfforddiant yn eu hamser eu hunain.

6.2 Partneriaethau a chontractwyr

Os fydd Ffilm Cymru Wales yn arwain yn strategol ac yn ariannol ar unrhyw bartneriaeth, byddwn yn sicrhau y bydd pob agwedd o'r gwasanaethau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn. Pan fyddwn mewn partneriaeth a arweinir gan sefydliad arall, bydd ein cyfraniad ni i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun, a byddwn yn annog y partneriaid eraill hefyd i gydymffurfio, ble bynnag fo hynny'n addas a phosib.

Pan fydd Ffilm Cymru Wales yn cyflogi neu'n comisiynu sefydliad arall dan gytundeb, byddwn yn eu hysbysu o'r Cynllun hwn, a'n eu hannog i gydymffurfio, ble fo hynny'n addas.

7. Monitro

Wrth gynllunio polisiau a gweithdrefnau newydd, bydd Ffilm Cymru Wales yn sicrhau bydd yr holl ddatblygiadau'n cydymffurfio gydag ymrwymadau'r Cynllun hwn. Bydd Ffilm Cymru Wales yn asesu anghenion ieithyddol y gynulleidfa darged er mwyn cynnig y gwasanaeth mwyaf effeithiol bosib, ac i wneud y defnydd gorau o adnoddau.

Bydd rhestr wirio o'r manau hynny a adnabuwyd yn y Cynllun ar gael i'r staff, i wirfoddolwyr a'r gweithwyr llawrydd fydd yn cynrychioli Ffilm Cymru Wales, a bydd asesiad o'r cynnydd yn erbyn y targedau gweithredu'n cael eu trafod yn ein cyfarfodydd rheoli chwarterol a chyfarfodydd y Bwrdd.

Bydd unrhyw adborth neu gwynion yn cael eu nodi a'u hadrodd yn ôl i'r Comisiynydd Iaith yn flynyddol, yn ogystal â gwybodaeth ar sut yr ymdriniwyd â'r gwyn ac unrhyw ganlyniad pellach; yn ogystal ag enghreifftiau o arfer gorau ac anogaeth ymarferol o ran defnyddio'r iaith Gymraeg.

Arolygir y gwaith hwn yn flynyddol gan Fwrdd Ffilm Cymru Wales, a bydd adroddiad cysylltiol gan Dîm Gweithredol y cwmni yn cael ei gyflwyno i'r Comisiynydd Iaith.

Bydd Ffilm Cymru Wales yn ystyried ac yn adolygu'r Cynllun bob tair blynedd, mewn ymgynghoriad â'r Comisiynydd Iaith.

8. Cwynion ac adborth

Bydd unrhyw gwynion sy'n berthnasol i weithredu'r Cynllun hwn yn cael eu trin ar lefel Weithredol.

Mae Ffilm Cymru Wales yn croesawu awgrymiadau gan y Cyhoedd, gan gleientiaid a staff ar gyfer gwella'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r gwasanaeth a gynigir. Dylid gyrru pob awgrym at Angharad Williams, Cynorthwy-ydd Personol y Prif Weithredwr i angharad@ffilmcymruwales.com neu Ffilm Cymru Wales, Canolfan y Gyfryngau S4C, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU.

9. Hysbysebu'r Cynllun a chodi ymwybyddiaeth gyhoeddus

Bydd Ffilm Cymru Wales yn cyfeirio at, ac yn ymrwmo i'r Cynllun Iaith Gymraeg yn y Cynllun Busnes. Rhennir y Cynllun Busnes ym mysg ein harianwyr a'n rhanddeiliaid, a byddwn yn sicrhau fod y Cynllun Iaith Gymraeg ar gael ar y wefan.

Fel rhan o'r broses o weithredu'r Cynllun, byddwn yn cynnal cyfnod ymgynghori cychwynnol am gyfnod o 4 wythnos, cyn penderfynu ar y cyhoeddiad terfynol, gan anfon y ddogfen at groestoriad o 50+ o gleientiaid, yn ogystal â sicrhau ei bod ar gael ar y wefan.

10. Amserlenni a chynllun gweithredu

Maes y gweithgaredd	Gweithred	Cyfrifoldeb	Amserlen
Cynhyrchu a Gwasanaethau Creadigol	Sicrhau cyfleoedd i dalent weithio yn yr iaith o’u dewis nhw a sicrhau cyfleoedd cyfartal i wneud, gwyllo a dysgu rhagor am ffilm yn Gymraeg a Saesneg	Tîm Talent ac Adran Addysg, Arddangos ac Adfywio	Proses barhaus
Delwedd Gyhoeddus	<p>Cwblhau’r gwaith o weithredu a chynnal gwefan ddwyieithog a chronfa ddata addysg ar-lein</p> <p>Arwyddion dwyieithog</p> <p>Digwyddiadau: creu meini prawf ar gyfer asesu anghenion cyfieithu a darpariaeth ddwyieithog, gan eirioli dros gynrychiolwyr y Gymraeg a’r defnydd o’r iaith</p> <p>Hysbysebu’n ddwyieithog yng Nghymru</p> <p>Datganiadau i’r wasg a’r cyfryngau: dwyieithog yng Nghymru i’r rhai sy’n siarad Cymraeg, a dwyieithog ar y wefan</p> <p>Cyhoeddi testun yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd pan fo hynny’n bosib</p>	<p>Cynrychiolwyr ar-lein pob adran a’r Tîm Cyfathrebu</p> <p>Adran Gyfathrebu</p> <p>Adran Gyfathrebu, swyddfa’r CEO ac arweinwyr adrannau digwyddiadau perthnasol</p> <p>Tîm Cyfathrebu</p> <p>Tîm Cyfathrebu</p> <p>Tîm Cyfathrebu</p>	<p>Tachwedd & proses barhaus</p> <p>Wedi’i gwblhau, sicrhau eu defnyddio’n addas</p> <p>Hydref & proses barhaus</p> <p>Proses barhaus</p> <p>Proses barhaus</p> <p>Proses barhaus</p>
Cyfathrebu	<p>Mewnol: Diweddarau Llawlyfr y Staff a rhannu rhestr gyfeirio’r staff a’r cyfeirlyfr o siaradwyr Cymraeg</p> <p>Hyfforddi’r staff er mwyn gweithredu’r cynllun</p>	<p>Swyddfa’r CEO</p> <p>Swyddfa’r CEO a’r Tîm Cyfathrebu</p>	<p>Hydref</p> <p>Rhagfyr 2014</p>

	<p>Negeseuon dwyieithog ar y peiriant ateb</p> <p>Adolygu a pharhau i ddarparu gwybodaeth ddwyieithog sy'n berthnasol i'r cwmni, y cynnyrch a'r gwasanaethau</p> <p>Datblygu a chynnal cronfa ddata o ddewisiadau ieithyddol ar gyfer ein cleientiaid, ac addasu'r ddarpariaeth i'r iaith o'u dewis nhw, ble bynnag fo hynny'n bosib</p> <p>Ymateb i bob gohebiaeth ysgrifenedig sydd yn Gymraeg, neu ohebiaeth lle mae'n hysbys mai Cymraeg yw dewis iaith y derbynnydd, yn Gymraeg, pan fo amser ac arbenigedd perthnasol ar gael</p>	<p>Pob tîm</p> <p>Tîm Rheoli a Chyfathrebu</p> <p>Tîm Cyfathrebu a'r holl staff</p> <p>Holl aelodau'r tîm</p>	<p>Hydref 2014</p> <p>Proses barhaus</p> <p>Medi 2015</p> <p>Proses barhaus gyda'r staff yn addasu'r ddarpariaeth i'r iaith ddewisol ble fo hynny'n bosib</p> <p>Hydref 2014 a phroses barhaus</p>
<p>Gweithredu</p>	<p>Wrth recriwtio, asesu a yw sgiliau ieithyddol Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, a'u hyrwyddo</p> <p>Aseseu'r ddarpariaeth o ran staff sy'n siarad Cymraeg yn rheolaidd, a darparu hyfforddiant, ble fo'n berthnasol</p> <p>Asesu cynrychiolaeth yr iaith Gymraeg ar ein Bwrdd</p> <p>Byddwn yn annog ein partneriaid i gydymffurfio â'r Cynllun hwn yn gryf</p> <p>Ble bynnag byddwn yn cyflogi sefydliad arall dan gytundeb,</p>	<p>Swyddfa'r CEO a'r tîm Cyfathrebu</p> <p>Tîm Rheoli a swyddfa'r CEO</p> <p>Bwrdd</p> <p>Tîm Rheoli</p> <p>Tîm Rheoli</p>	<p>Proses barhaus</p> <p>Proses barhaus</p> <p>Proses barhaus</p> <p>Proses barhaus</p> <p>Proses barhaus</p>

	byddwn yn rhoi gwybod iddynt am y Cynllun a gofyn am eu cydweithrediad		
Monitro	Goruchwylio gweithredu'r Cynllun a'i effeithlonrwydd parhaus Bwrdd i arolygu ei effeithlonrwydd a'r gwelliannau posib, ac i gysylltu â'r Comisiynydd parthed unrhyw newidiadau	Tîm Rheoli, yn adrodd i'r Bwrdd Tîm Rheoli a'r Bwrdd	Yn fisol drwy gyfarfodydd rheoli misol, ac adroddiad blynyddol y Bwrdd Medi 2017
Cwynion ac adborth	Trefnu system gwyno a hysbysu'r staff amdani. Cadw cofnod am natur y gwyn, sylwadau, crynodeb o'r ymateb a'r canlyniad. Ymateb i gwynion yn iaith wreiddiol y gwyn	Tîm Rheoli a swyddfa'r CEO	Integreiddio i gyfarfodydd rheoli Cydnabod mewn 5 diwrnod gwaith. Ymateb mewn 14 diwrnod, ble bynnag fo hynny'n bosib Ymgorffori'r grynodedd i'r arolwg blynyddol i'r Bwrdd
Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus	Rhannu drafft o'r ymgynghoriad i groes-toriad o'n cleientiaid a'i gyhoeddi ar ein gwefan Addasu e-arwyddion i hysbysu pa staff sy'n siarad Cymraeg Gweithredu cynllun bathodynau Cymraeg Hysbysu mynychwyr o wasanaethau cyfieithu, a'u hannog i ddefnyddio'r Gymraeg drwy siaradwyr, y Cadeirydd, dull o groesawu i ddigwyddiadau	Tîm Cyfathrebu Yr holl staff Yr holl staff Tîm Cyfathrebu, cynrychiolwyr perthnasol y tîm Rheoli a digwyddiadau	Hydref 2014 Hydref 2014 Hydref 2014 Proses barhaus